YMDDIRIEDOLAETH JAMES PANTYFEDWEN

Nodiadau ar gyfer ceisiadau oddi wrth Eglwysi

1. Mae'r Ymddiriedolwyr yn cyfarfod tua pum gwaith y flwyddyn er mwyn trafod ceisiadau.

2. Er mwyn dod o fewn canllawiau'r Ymddiriedolaeth rhaid:
   (i) bod yr eglwys yn ran o strwythur enwadol neu wedi'i chofrestru fel elusen ar wahan (bydd angen rhoi manylion llawn).
   (ii) bod gan yr eglwys aelodaeth sydd o leiaf yn ddeg o ran nifer.
   (iii) Bod yr eglwys yn cynnal o leiaf un gwasanaeth pob Sul.

3. Telir sylw manwl gan yr Ymddiriedolwyr i:
   (i) ymdrechion yr ymgeiswyr i godi arian.
   (ii) cymorth oddi wrth yr enwad perthnasol.
   (iii) y graddau y mae'r eglwys yn rhannu adeiladau gyda enwadau eraill.
   (iv) y defnydd a wneir o'r adeiladau gan y gymuned leol.

4. Rhaid i'r ymgeiswyr gael y gwybodaeth canlynol cyn cyflwyno cais:
   (i) canlyniad unrhyw gais a wneir i CADW.
   (ii) canlyniad unrhyw gais a wneir i'w henwad; os nad ydynt yn gwneud cais bydd yn rhaid esbonio paham.
   (iii) ymateb i unrhyw geisiadau eraill sy'n debygol o gynnig symiau sylweddol tuag at ariannu'r prosiect (e.g. y Cynulliad, Cronfeydd Loteri ac ati).

5. Gellir wneud cais ar gyfer atgyweirio a gwneud gwelliannau ar brif adeilad yr eglwys, festri a neuadd. **NI ELLIR** wneud cais ar gyfer y canlynol:
   (i) mans, tŷ capel, neu lle byw o unrhyw fath.
   (ii) y tir o amgylch yr eglwys, yn cynnwys gwaith amgylcheddol, muriau amgylchynol a lich-gât.
   (iii) mynwentydd.
   (iv) atgyweirio a phrynu organ.
   (v) maes parcio
   (vi) system sain.